# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad

Lleoliad:

**Fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 10 Mawrth 2025

Amser: 13.30 - 14.14

Gellir gwylio’r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/14864

# O bell

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau o’r Senedd: | Alun Davies AS<br>Laura Anne Jones AS<br>Adam Price AS<br>Hefin David AS |
| Tystion: | |
| Staff y Pwyllgor: | P Gareth Williams (Clerc)<br>Gerallt Roberts (Ail Glerc)<br>Sarah Sargent (Ail Glerc)<br>Kate Rabaiotti (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cynnig i ethol Cadeirydd dros dro o dan Reol Sefydlog 17.22 ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor

Cafwyd enwebiad ar gyfer Cadeirydd dros dro o dan Reol Sefydlog 17.22, a chytunodd y Pwyllgor ar yr enwebiad. Etholodd y Pwyllgor Alun Davies AS yn Gadeirydd dros dro ar gyfer y cyfarfod hwn o‘r Pwyllgor.

## 2 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau, dirprwyon a datganiadau o fuddiant

Anfonodd Mike Hedges AS ei ymddiheuriadau. Roedd Hefin David AS yn bresennol fel dirprwy.

## 3 Offerynnau sy’n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i’r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

### 3.1 SL(6)586 – Gorchymyn y Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) (Rhif 2) 2025

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn ac ymateb Llywodraeth Cymru, a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd a nodwyd.

### 3.2 SL(6)587 – Rheoliadau’r Dreth Gwarediadau Tirlenwi (Cyfraddau Treth) (Cymru) (Diwygio) 2025

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn ynghyd ag ymateb Llywodraeth Cymru, a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

## 4 Offerynnau sy’n codi materion i gyflwyno adroddiad arnynt i’r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3 – trafodwyd eisoes

### 4.1 SL(6)585 – Rheoliadau Bwyd (Hyrwyddo a Chyflwyno) (Cymru) 2025

Nododd y Pwyllgor ymateb Llywodraeth Cymru.

## 5 Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol

### 5.1 Gohebiaeth gan Lywodraeth Cymru: Cyfarfodydd y grwpiau rhyngweinidogol

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â chyfarfodydd y Grŵp Rhyngweinidogol ar gyfer yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig a’r Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol: Cyllid.

### 5.2 Gohebiaeth gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig: Rheoliadau Llygryddion Organig Parhaus (Diwygio) (Rhif 2) 2025

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, a chytunodd i ymateb yn holi am eglurder ar rai materion.

## 6 Papurau i'w nodi

### 6.1 Gohebiaeth gan Bwyllgor Cytundebau Rhyngwladol Tŷ'r Arglwyddi at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Faterion Tramor, y Gymanwlad a Datblygu

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan Bwyllgor Cytundebau Rhyngwladol Tŷ'r Arglwyddi at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Faterion Tramor, y Gymanwlad a Datblygu, a chytunodd i ymaeb i'r Pwyllgor Cytundebau Rhyngwladol.

### 6.2 Gohebiaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru at y Llywydd: Bil Gwasanaethau Bysiau (Rhif 2)

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru at y Llywydd, a chytunodd i ystyried yr ohebiaeth ymhellach mewn cyfarfod yn y dyfodol.

### 6.3 Gohebiaeth gyffredinol i'w nodi

### 6.4 Gohebiaeth gan y Comisiwn Dŵr Annibynnol: Galwad am Dystiolaeth

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan y Comisiwn Dŵr Annibynnol a chytunodd i ystyried ymateb i'r alwad am dystiolaeth mewn cyfarfod yn y dyfodol.

### 6.5 Gohebiaeth â'r Pwyllgor Busnes: Adroddiad ar y Bil Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru)

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan y Pwyllgor Busnes.

### 6.6 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 4) ar y Bil Great British Energy

Nododd y Pwyllgor y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 4) ar y Bil Great British Energy.

### 6.7 Gohebiaeth gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig a’r Cwnsler Cyffredinol a’r Gweinidog Cyflawni: Craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025-26

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan y  Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig a’r Cwnsler Cyffredinol a’r Gweinidog Cyflawni a chytunodd i ysgrifennu nôl at Lywodraeth Cymru.

## 7 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

Derbyniwyd y cynnig.

## 8 Blaenraglen Waith

Cytunodd y Pwyllgor ar ei flaenraglen waith hyd at y Pasg 2025.